**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (184)**
**Dydd Mercher, 8 Chwefror 2006**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

.....................................

**Eitem 1** - Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Eitem 2** - Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Eitem 3** - Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, ar ei chyfrifoldebau heblaw am fusnes.

**Eitem 4** - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Diwygiór Heddlu

*Cynnig i drafod y 3 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân:*
**Eitem 5** - Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2006-07 (Setliad Terfynol – Awdurdodau Heddlu)

**Eitem 6** - Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Awdurdodau Heddlu) (Cymru) 2004-05

**Eitem 7** -Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Awdurdodau Heddlu) (Cymru) 2005-06

**Eitem 8** - Dadl ar y defnydd a wneir o safleoedd Gwely a Brecwast gan deuluoedd digartref - **TYNNWYD YNOL**

**Eitem 9** - Dadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 31 (NNDM 2736), a osodwyd gan Janet Davies AC

**Eitem 10** - Dadl fer - NNDM2830 Jenny Randerson (Canol Caerdydd): Hepatitis C – Y

Salwch Anghofiedig

.....................................

**Eitem 1 - Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

.....................................

**Eitem 2 - Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

.....................................

**Eitem 3 - Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, ar ei chyfrifoldebau heblaw am fusnes.**

.....................................

**Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Diwygiór Heddlu**

.....................................

*Cynnig i drafod y 3 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân*.
**Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Setliad Heddlu 2006-07**

**NDM2832 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2006-07 (Setliad Terfynol – Awdurdodau Heddlu) (dim copi Cymraeg ar gael), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006 gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dogfennau Ategol
Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2006-07 (Setliad Terfynol – Awdurdodau Heddlu) - Dim Copi Cymraeg Ar Gael

.....................................

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Awdurdodau Heddlu) (Cymru) 2004-05

**NDM2834 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Awdurdodau Heddlu) (Cymru) 2004-05 (dim copi Cymraeg ar gael), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006 gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dogfennau Ategol
Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Awdurdodau Heddlu) (Cymru) 2004-05 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael

.....................................

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Awdurdodau Heddlu) (Cymru) 2005-06

**NDM2833 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Awdurdodau Heddlu) (Cymru) 2005-06 (dim copi Cymraeg ar gael), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006 gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dogfennau Ategol
Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Awdurdodau Heddlu) (Cymru) 2005-06 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael

......................................

## Eitem 8 - Dadl ar y defnydd a wneir o safleoedd Gwely a Brecwast gan deuluoedd digartref - TYNNWYD YNOL

**NDM2831 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi'r flaenoriaeth barhaus a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd.

2. Yn croesawu cyflwyno deddfwriaeth i gyfyngu ar y defnydd o lety gwely a brecwast ac i wella ansawdd tai dros dro ar gyfer pobl ddigartref.

3. Yn cadarnhau'r gofyniad i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn ystyried anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a phersonol y person digartref wrth gyflawni'u dyletswyddau i ddod o hyd i lety addas.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1, 2, 9 + 10)**
**(3, 4, 5 + 6)**
**(7 + 8)**

**Gwelliant 1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

'ond yn cydnabod bod cynnydd sylweddol mewn tai cymdeithasol yn rhan hanfodol o leihau digartrefedd.'

**Gwelliant 2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

'ond yn parhau'n bryderus mai'r sector rhent preifat, sy'n cynnwys cyfran uchel o lety ansafonol, yw'r prif ddarparwr.'

**Gwelliant 3. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

‘ar y sail bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cwrdd â’i haddewid i beidio â gosod beichiau nas cyllidir ar awdurdodau lleol.’

**Gwelliant 4. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu sylfaen dystiolaeth gyda golwg ar yr angen am dai a'r cyflenwad tai ar gyfer llety i bobl ddigartref er mwyn gallu rhoi cynllun gweithredu priodol ar waith.

**Gwelliant 5. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi’r angen am ddarpariaeth arbenigol ar gyfer categorïau o bobl ddigartref sy'n agored i niwed.

**Gwelliant 6. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi blaenoriaeth i wasanaethau cyhoeddus craidd er mwyn gallu rhoi sylw i'r argyfwng tai yng Nghymru a'i effaith ar adfywio.

**Gwelliant 7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau eu bod yn cael eu cyllido'n llawn wrth gyflawni’r ddyletswydd hon.

**Gwelliant 8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fonitro’n gadarn gweddill y llety dros dro sy’n weddill i sicrhau ei fod yn diwallu gofynion defnyddwyr y gwasanaeth.

**Gwelliant 9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar yr adnoddau gofynnol i’w dyrannu i awdurdodau lleol a fyddai’n eu galluogi i leihau eu dibyniaeth ar lety gwely a brecwast.

**Gwelliant 10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu’r diffiniad o "ddigartref o fwriad".

..................................

## Eitem 9 - Dadl am y cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 31 (NNDM 2736), a gyflwynwyd gan Janet Davies AC

**NNDM2736 Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 31.2:

Yn cefnogi mewn egwyddor ddeddfwriaeth i:

a) Mynnu bod datganiad rhagofalus yn cael ei gyflwyno ynghylch effeithiau posibl ac effeithiau gwirioneddol pob datblygiad ar gyfer offer cyfathrebu electronig ar iechyd.

b) Dileu hawliau datblygu a ganiatawyd gweithredwyr systemau codau cyfathrebu electronig ar gyfer pob datblygiad.

c) Dileu hawliau datblygu a ganiatawyd ymgymerwyr rheilffyrdd ar gyfer datblygiadau o ran offer cyfathrebu electronig.

*Isod, ceir datganiad o’r pwerau cyfreithiol a fyddai’n caniatáu gwneud y ddeddfwriaeth a gynigir, ynghyd ag amlinelliad o’r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill er mwyn helaethu ar y cynnig:*

<u>Datganiad o’r Pwerau Cyfreithiol</u>

(a) Caiff Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 ei ddiwygio drwy fewnosod erthygl newydd.

Bydd geiriad yr erthygl newydd hon yn nodi’r darpariaethau cyffredinol y dylid eu gosod yn y datganiad rhagofalus newydd a fyddai’n cynnwys ei gwneud yn ofynnol i’r gweithredwr gyflwyno’r datganiad, i’r cyhoedd a chyrff statudol roi sylwadau arno ac iddo gael ei ystyried

o fewn y penderfyniad cynllunio achos wrth achos. Byddai hefyd yn nodi’r meini prawf y dylid eu cynnwys yn y datganiad.

Mae adrannau 59, 61(1), 65, 69, 71, 73(3), 74, 77(4), 78, 79(4), 188, 193, 196(4), a 333(7), a pharagraffau 5, 6, 7(6) ac 8(6) o Atodlen 1 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi’r pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru weithredu (a).

(b) Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Cymru) 1995 fel y’i diwygiwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 yn ymdrin â Datblygiadau gan Weithredwyr Systemau Codau Telathrebu ac yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir i weithredwyr o'r fath.

Caiff Rhan 24 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 fel y’i diwygiwyd gan Orchymyn Gwlad a Thref Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 ei diddymu.

Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad telathrebu gael ei benderfynu drwy gyfrwng y broses gynllunio lawn.

(c) Caiff Atodlen 2 i Ran 17 A1 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 i'r graddau ei bod yn berthnasol i Gymru ei diwygio.

Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Network Rail a phob ymgymerwr rheilffordd arall wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer pob gosodiad telathrebu ar eu tir gweithredol, fel ag y mae’n rhaid iddynt ei wneud ar gyfer gosodiadau o'r fath ar dir nad yw'n dir gweithredol.

Rhoddir y gallu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru weithredu (b) ac (c) drwy gyfrwng y pwerau a roddwyd i’r Cynulliad Cenedlaethol drwy adrannau 59, 60, 61 (1) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

<u>Goblygiadau o ran Adnoddau</u>

(a): Ychydig o oblygiadau o ran adnoddau a ddisgwylir. Bydd angen gwariant ychwanegol er mwyn prosesu’r gwaith ychwanegol o ran asesu a gweithredu’r datganiad rhagofalus. Fodd bynnag gellid gwrthbwyso’r costau cyhoeddus ychwanegol hyn drwy gyfrwng y ddarpariaeth yn y rheoliadau a weithredir dan (a).

(b) ac (c): Ychydig o oblygiadau o ran adnoddau sydd ar gyfer (b) ac (c). Bydd y ddwy ddarpariaeth yn peri bod angen rhywfaint o waith ychwanegol o ran y ceisiadau cynllunio lleol ac o ran yr awdurdodau, a hynny yn sgîl y cynnydd yn y ceisiadau cynllunio llawn a’r cynnydd yn nifer y ceisiadau. Fodd bynnag, bydd peth o’r gost ychwanegol hon yn cael ei wrthbwyso gan y cynnydd mewn ffioedd ymgeisio. Ni fyddai’n rhaid gwneud unrhyw waith nad sy’n cael ei wneud eisoes.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ychydig o wariant ychwanegol, os o gwbl, a fydd i Gynulliad

Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, gallai arwain at ostyngiad yn nifer yr apeliadau a gyflwynir gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd ynghylch gosodiadau. O weithredu'r darpariaethau hyn, yr hyn sydd fwyaf tebygol o ddigwydd yw y bydd y drefn gadarnach yn atal y ceisiadau hynny sydd leiaf tebygol o gael eu cymeradwyo.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1 + 2)**

**1. Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt (b), cynnwys ar ôl "electronig" :

'sy'n dod o fewn y darpariaethau a nodir yn Rhan 24 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002,'

**2. Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt (c), cynnwys ar ôl "electronig" :

'lle bo'r cynigion at ddibenion nad oes a wnelont â chynorthwyo traffig y rheilffyrdd i symud yn ddiogel.'

Gellir gweld Rhan 24 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 yn y cyswllt isod:

*Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
*http://www.opsi.gov.uk/cgi-bin/htm_hl.pl?DB=opsi&STEMMER=en&WORDS=town+countri+plan+gener+develop+amend+wale+order+2002+&COLOUR=Red&STYLE=s&URL=http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2002/20021878e.htm#muscat_highlighter_first_match*

.....................................

## Eitem 10 - Dadl fer - NNDM2830 Jenny Randerson (Canol Caerdydd): Hepatitis C – Y Salwch Anghofiedig

..................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

..................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 14 Chwefror 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**